



Comisiynydd
**Cenedlaethau'r
Dyfodol**
Cymru

**Future
Generations**
Commissioner
for Wales

Cynllun Strategol Drafft

2017 - 2023

“Yr hyn y mae Cymru'n ei wneud heddiw, gobeithiwn y bydd y byd yn ei wneud yfory – gweithredu yn fwy na geiriau yw'r gobaith ar gyfer cenedlaethau'n dyfodol” – Y Cenhedloedd Unedig

cenedlaethaurdyfodol.cymru

Gweithredu heddiw ar gyfer gwell yfory

Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol – Cynllun Strategol Drafft 2017-2023

Croeso a Chyflwyniad

Rwy'n falch i gyflwyno argraffiad cyntaf fy nghynllun strategol, sy'n nodi fy ngweledigaeth hirdymor ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a fy nghynlluniau ar gyfer fy nhymor 7 mlynedd yn y swydd.

Sefydlwyd rôl Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru gan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'n fraint i gael fy mhenodi fel y Comisiynydd cyntaf a chychwynnais ar fy swydd yn gynnar yn 2016.

Fy mlaenoriaeth gyntaf fu cwrdd â phob un o'r 44 corff cyhoeddus yng Nghymru i ddeall yn well y cyfleoedd a'r heriau fel y'u gwelir ganddynt hwy. Rwyf hefyd wedi cynnal cyfarfodydd gyda channoedd o sefydliadau, wedi llwyfannu digwyddiadau cyhoeddus ledled Cymru a defnyddio llwyfannau digidol i gysylltu â phobl. Yr hyn a ddysgais fel canlyniad, ynghyd â barn fy Mhanel Ymgynghorol, sydd wedi helpu i lunio'n gweledigaeth. Ynghyd â fy nhîm o uwch-reolwyr a gweddiill ein staff, rydym wedi nodi ein pwrpas fel sefydliad, a'r pwrpas hwn yw sylfaen y strategaeth hon.

Rydym ar daith gyffrous i gyflawni'r Gymru a garem – siwrnai na fedrwn ymgymryd â hi heb ymgyfraniad y trydydd sector, y sector preifat a phob un sy'n credu mewn dyfodol disgleiriach.

Mae ein nod o fewn cyrraedd, ac rwy'n benderfynol o wneud yr egwyddor Datblygu Cynaliadwy (y pum dull o weithio) yn rhan hanfodol o bob peth a wneir gennym, a byddaf yn herio fy nhîm, y rhai sy'n datblygu polisi ac yn darparu gwasanaethau, i fod yn eofn yn eu hymagwedd ac i rannu'r hyn a ddysgir ganddynt ar hyd y daith. Mae Cenedlaethau'r Dyfodol yn dibynnu ar y pethau hyn.



Sophie Howe
Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol



Gweithredu heddiw ar gyfer gwell yfory

“Yr hyn y mae Cymru’n ei wneud heddiw, gobeithiwn y bydd y byd yn ei wneud yfory – gweithredu yn fwy na geiriau yw’r gobaith ar gyfer cenedlaethau’n dyfodol”, Y Cenhedloedd Unedig

Nid yw busnes fel arfer yn ddewis ar gyfer ein gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru.

Rydym yn genedl fach. Mae’n poblogaeth yn debygol o gynyddu i 3.5 miliwn o bobl erbyn 2050 ond bydd y gyfran o bobl dros 75 mlwydd oed bron yn dyblu, a hyn yn cynyddu baich ein gwasanaethau iechyd a’n gwasanaethau cymdeithasol sydd eisoes o dan bwysau.

Petai pawb yn y byd yn defnyddio adnoddau fel a wneir gennym ni yng Nghymru, byddai arnom angen mwy na dwy blaned i ysgwyddo’r baich amgylcheddol. Yn ôl Sefydliad Iechyd y Byd mae’r newid yn yr hinsawdd “yn un o’r risgiau mwyaf i iechyd yn yr unfed ganrif ar hugain”. Mae’n bygwth ein hamgylchedd, ein hiechyd a’n heconomi. Er enghraifft, disgwylir i lifogydd yn unig gostio rhyw £200 miliwn y flwyddyn i ni, gyda chymaint o gartrefi ac eiddo yng Nghymru yn agos at ddŵr.

Mae hyn i gyd yn digwydd ar adeg pan ddywedir gan bobl eu bod yn teimlo diffyg cysylltiad rhyngddynt â’r penderfyniadau sy’n effeithio fwyaf arnynt. Dengys nifer o adroddiadau dylanwadol bod llawer o bobl ifanc yn teimlo’u bod wedi eu hynysu mewn dull unigryw neu hyd yn oed wedi eu cau allan. Dywed un o adroddiadau arolygol y DU mai rhyw 15% yn unig o bobl ifanc rhwng 18-24 mlwydd oed sy’n ymddiried yn y Llywodraeth i roi blaenoriaeth i anghenion y DU. Mae’n glir i mi bod angen adeiladu gwell dealltwriaeth o’n cymunedau a’r modd y mae pobl yn byw, er mwyn rhoi llais cryfach iddynt.

Mae chwarter ein dinasyddion yn ei chael hi’n anodd cael dau ben llinyn ynghyd. Gallai tueddiadau’r dyfodol, megis datblygiad awtomeiddio, waethygu’r sefyllfa os na wnawn godi i gwrdd â’r heriau – er enghraifft, gallai hyn arwain at gollu swyddi, neu, gyda’r ymagwedd gywir gyfoethogi gwaith pobl.

Mae angen newidiadau mawr neu bydd ein gwasanaethau cyhoeddus, yn syml iawn, yn methu ymdopi.

Mae’r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol yn ein hannog; yn rhoi caniatâd i ni, a’r rhwymedigaeth statudol i wneud y newidiadau hyn. Mae’n ddarn unigryw, arloesol o ddeddfwriaeth sy’n denu sylw byd-eang. Mae’n cynnig cyfleoedd enfawr i ni fel genedl fach, yma gartref ac yn fyd-eang, ond nid wyf heb lawn werthfawrogi maint yr her sy’n ein hwynebu os yr ydym i fanteisio i’r eithaf ar hyn.

Mae'r ddeddfwriaeth yn diffinio fy rôl fel un sy'n gofyn i mi:

Hybu'r egwyddor datblygu cynaliadwy, ac yn arbennig weithredu fel gwarcheidwad gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion ac annog cyrff cyhoeddus i dalu mwy o sylw i effaith hirdymor yr hyn a wneir ganddynt.

Ac at y diben hwnnw, fonitro ac asesu i ba raddau y mae amcanion llesiant a nodir gan gyrff cyhoeddus yn cael eu diwallu.

Mae pobl wedi bod yn siarad am ddatblygu cynaliadwy am ddegawdau. Ond mae newid parhaol eto i'w gyflawni. Mae angen o hyd i ddatblygu'r ddealltwriaeth nad cysyniad amhendant yw datblygu cynaliadwy y dylid mynd i'r afael ag ef gan adran arbennig neu set o grwpiau â diddordeb, ond yn hytrach yn ymagwedd sydd ag angen i ni i gyd ei mabwysiadu i sicrhau bod ein planed, ein gwasanaethau a'n cymunedau yn addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol.

Yng Nghymru, mae Llywodraeth Cymru wedi cymryd y cam eofn o ddiffinio Datblygu Cynaliadwy fel:

“Y broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol ag egwyddor datblygu cynaliadwy, gyda'r bwriad o wireddu'r nodau llesiant.”

Mae deddfwriaethu ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol a nodi'n glir beth yw ystyr datblygu cynaliadwy yn garreg filltir arwyddocaol ar y siwrnai tuag at Gymru sy'n addas ar gyfer y dyfodol, ond heb fod yn ddiben ynddo'i hun. Mae'r Ddeddf yn gofyn i eiriau gael eu troi'n weithred. Mae angen i ni adeiladu gwell cyd-ddealltwriaeth o'r hyn a olygir gennym os yr ydym i droi'r siarad yn weithred a chyflawni'r newidiadau diwylliannol sydd eu hangen.

Mae'r Ddeddf yn nodi pum dull o weithio, a fyddant, os cânt eu croesawu gan gyrff cyhoeddus, yn helpu i wireddu'r newidiadau sylfaenol sy'n ofynnol ar gyfer gwireddu'r Gymru a garem. Bydd y rhain yn annog yr aflonyddu adeiladol sydd ei angen ar ymagweddau traddodiadol ac yn creu cyfleoedd ar gyfer meddwl mewn dull arloesol, sydd wedi ei wreiddio yn realiti ein cymunedau, yn y ffordd y mae pobl yn byw eu bywydau a'u disgwyliadau o'r gwasanaethau cyhoeddus a ariennir ganddynt. Y Pum Dull o Weithio hyn yw:

Mabwysiadu safbwynt hirdymor: mae angen i ni adeiladu mewnwelediad gwirioneddol o natur debygol y dyfodol os yr ydym i wireddu'r nodau – neu fethu mynd i'r afael â'r bygythiadau mwyaf – i helpu cyrff cyhoeddus i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

Mabwysiadu ymagwedd integredig: pan fydd un sefydliad neu adran yn gwneud penderfyniad, mae adran arall yn cael ei heffeithio. Rhaid i gyrrff cyhoeddus weithio gyda'i gilydd i ddeall eu cyfraniad cyfunol i bob un o'r saith nod llesiant, gan osgoi'r demtasiwn i ganolbwyntio'n unig ar un neu ddau ohonynt.

Ennyn ymgyfraniad pobl â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant Credaf yn bendant bod deialog gwirioneddol rhwng cymunedau, unigolion a'u gwasanaethau cyhoeddus yn hollbwysig os yr ydym i gwrdd ag anghenion y genhedlaeth bresennol, heb gyfaddawdu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion.

Cydweithio: Mae angen i ni greu gwell dealltwriaeth o natur partneriaeth wirioneddol, ynghyd â chwalu rhwystrau ac adeiladu dealltwriaeth o'r manteision.

Atal problemau rhag digwydd neu waethygu. Eto, mae Cymru wedi bod yn trafod y cysyniadau'n ymwneud ag ataliad ac ymyrraeth gynnar am amser hir. Rydym wedi gwneud cynnydd mewn rhai meysydd ond mae angen i ni gyflymu'r gweithredu os yr ydym i wella bywydau dinasyddion ac os ydyw gwasanaethau cyhoeddus i reoli'r heriau yn awr ac yn y dyfodol.

Rwy'n benderfynol o wneud y 'Dulliau hyn o Weithio' a'r egwyddor datblygu cynaliadwy'n rhan hanfodol o fy ngwaith i fy hunan a gwaith fy nhîm.

Bydd ein hymagwedd yn her adeiladol seiliedig ar gymorth. Rwy'n teimlo'n gryf ynglŷn â'r angen i symud i ffwrdd oddi wrth yr ymagwedd 'ticio blychau' fel ffordd o gwrdd â dyletswyddau a chyfrifoldebau a symud tuag at ymagwedd hirdymor tuag at gyflwyno gwasanaethau mewn dull cydgysylltiedig sy'n cynorthwyo pobl yn awr ac yn y dyfodol.

Gan gadw hyn mewn golwg, rwyf wedi gweithio gyda fy nhîm ac eraill i ddiffinio'n pwrpas sefydliadol parthed:

- Amlygu'r materion, yr heriau a'r cyfleoedd mawr sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol
- Cynorthwyo a herio cyrff cyhoeddus i feddwl am effaith hirdymor yr hyn a wneir ganddynt
- Gweithio gydag eraill i sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen
- Gweithredu yn ogystal â thrafod – ysgwyddo'r newid yr ydym yn dymuno ei weld mewn eraill.

Mae'r cynllun strategol isod yn nodi sut y byddaf yn defnyddio'r pwrpasau hyn i wneud y gorau o fy nghyfraniad a chyfraniad fy nhîm, i hybu datblygu cynaliadwy yng Nghymru a diogelu gallu cenedlaethau'r dyfodol i gwrdd â'u hanghenion.



Y Cynllun:

Pwrpas 1:

Amlygu'r materion, yr heriau a'r cyfleoedd mawr sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol

Byddaf:

Yn warcheidwad ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol – gan ddangos y peryglon y maent yn eu hwynebu a herio polisiau tymor byr. Bydd hyn yn cynnwys cynhyrchu'r Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol cyntaf erbyn 2020 fel sy'n ofynnol o dan y Ddeddf, gan nodi sut y gall cyrff cyhoeddus feddwl a chynllunio ar gyfer y dyfodol.

Herio cyrff cyhoeddus i weithredu ar y bygythiadau mwyaf sy'n wynebu Cymru, gan gynnig cymorth drwy adeiladu mewnwelediad o'r dulliau gorau o fynd i'r afael â'r heriau yr ydym yn eu hwynebu ac amlygu cyfleoedd ar gyfer gweithredu. Mae fy ngwaith ymgysylltu hyd yn hyn wedi nodi'r blaenoriaethau canlynol sy'n dod i'r amlwg:

- **Newid hinsawdd – canolbwyntio ar leihau allyriadau a mynd i'r afael â'u heffeithiau**
- **Newid economaidd – addasu i economi sy'n addas ar gyfer y dyfodol**
- **Newid yn y boblogaeth – mynd i'r afael â heriau a chyfleoedd poblogaeth sy'n heneiddio, cyfansoddiad ein cymunedau, sy'n newid, a phwysigrwydd y blynyddoedd cynnar a phrofi-adau niweidiol yn ystod plentyndod**
- **Ymddieithriad dinasyddion – hyrwyddo cyfranogiad cyhoeddus ac ymgyfraniad yn y broses benderfynu**

Dysgu ar y cyd â chenhedloedd eraill – hybu ymagwedd Cymru tra'n dysgu wrth eraill – cynorthwyo a herio cynnydd ar ddatblygu cynaliadwy

Byddwn yn gwneud hyn:

- Drwy nodi (ac adolygu'n gyfnodol) feysydd blaenoriaeth ar gyfer gweithredu i fynd i'r afael â'r heriau mwyaf sy'n wynebu cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru a chanolbwyntio ar gynorthwyo a herio cyrff cyhoeddus. I wneud hyn byddwn yn ymgysylltu ag arbenigwyr, sefydliadau, cyrff cyhoeddus a dinasyddion i ddiffinio'r heriau a'r materion hyn, gan nodi cyfleoedd allweddol i fynd i'r afael â hwynt.
- Drwy sefydlu rhwydwaith o arbenigwyr ac academyddion (yn genedlaethol a rhyngwladol) i adeiladu mewnwelediad o dueddiadau a senarios y dyfodol a'r "hyn sy'n gweithio"
- Drwy fonitro'r modd y mae cyrff cyhoeddus, o fewn ein meysydd blaenoriaeth, yn pennu amcanion, datblygu polisi a gwneud penderfyniadau, er mwyn hybu datblygu cynaliadwy a'r materion systemig arwyddocaol sy'n gofyn am ein hymyrraeth os yr ydym i sicrhau bod egwyddorion Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cael eu gweithredu.
- Drwy weithio gydag eraill, adeiladu gwybodaeth o gwmpas y meysydd blaenoriaeth a datblygu adnoddau i'w targedu, gan nodi'r heriau a'r cyfleoedd sy'n wynebu Cymru a dangos y gwahaniaeth cadarnhaol y gall gweithredu'r Ddeddf ei gyflawni.

Pwrpas 2:

Cynorthwyo a herio cyrff cyhoeddus i feddwl am effaith hirdymor yr hyn a wneir ganddynt

Byddaf:

Yn herio “busnes fel arfer” o fewn y sector cyhoeddus, gan gynorthwyo gwelliannau mewn asesu a chynllunio ar gyfer llesiant

Yn cynorthwyo a herio'r rhai hynny sy'n gosod fframweithiau perfformiad a'r rhai hynny sy'n eu hadolygu'n annibynnol i ddatblygu ymagwedd integredig, hirdymor tuag at asesu a herio mewn dull effeithiol gyrrff cyhoeddus ar eu cyfraniad i Lesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Byddwn yn gwneud hyn:

- Drwy sefydlu partneriaeth gyda sefydliad academaidd ac eraill i adolygu asesiadau llesiant, darparu dadansoddiad, dysgu ar y cyd a llywio'n hymateb i gynlluniau llesiant
- Drwy ddefnyddio'r hyn a ddysgwyd o'r asesiadau llesiant i lywio cyngor a chymorth i gyrrff cyhoeddus a'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a meysydd y dylem ganolbwyntio'n gweithredu arnynt
- Drwy ddatblygu ymagwedd “Addas ar gyfer y Dyfodol” gyda gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, i gynghori a helpu cyrff cyhoeddus ar ddefnyddio'r pum dull o weithio (egwyddorion datblygu cynaliadwy) er mwyn trawsnewid eu ffordd o weithio
- Drwy greu Cwmwl o Arloeswyr – grŵp o eiriolwyr Cenedlaethau'r Dyfodol ac arloeswyr yn eu maes, â ganddynt y gallu a'r ewyllys i gynorthwyo cyrff cyhoeddus wrth iddynt weithredu'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol
- Drwy hwyluso Rhwydwaith Gyfnewid y Sector Cyhoeddus – grŵp cyfnewid gwybodaeth wedi ei sefydlu i ddysgu ar y cyd a darparu adborth i fy nhimau polisi ac asesu
- Drwy herio a chynorthwyo Archwilydd Cyffredinol Cymru, arolygiaethau a'r rhai hynny sy'n sefydlu fframweithiau atebolrwydd i ddatblygu eu hymagwedd mewn ffordd sy'n annog yr arloesedd a'r trawsnewid sy'n ofynnol
- Drwy weithio gyda phartneriaid i ddatblygu a chryfhau'r ddealltwriaeth o effaith hirdymor y penderfyniadau a chraffu'n fwy trwyadl ar ran cenedlaethau'r dyfodol, er enghraifft drwy weithio gyda chynrychiolwyr etholedig megis ACau a Chynghorwyr

Pwrpas 3:

Gweithio gydag eraill i sbarduno'r newidiadau sydd eu hangen

Byddaf:

Yn adeiladu partneriaethau cryf effeithiol ac yn datblygu mudiad ar gyfer newid o fewn y sector cyhoeddus, lle gall pobl hybu ymagwedd Cymru tuag at ddatblygu cynaliadwy

Yn hybu ymgyfraniad ac ymgysylltiad effeithiol cyhoeddus, yn herio'n hunain ac eraill i ddeall yn well anghenion ein cymunedau, ein pobl a'u dylanwad yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.

Byddwn yn gwneud hyn:

- Drwy ddefnyddio'r meysydd blaenoriaeth a fabwysiadwyd gennym i weithio gydag eraill i gynhyrchu naratif cryf ac astudiaethau achos cymhellgar i adeiladu dealltwriaeth o'r modd y gellir defnyddio'r Ddeddf fel fframwaith ar gyfer newid trawsffurfiol
- Drwy ddatblygu'n seilwaith gyfathrebu, gan integreiddio â gwaith ein partneriaid, i gynorthwyo hyrwyddiad effeithiol datblygu cynaliadwy a dealltwriaeth o bwerau dyletswyddau'r Comisiynydd
- Drwy greu cysylltiad rhwng cyrff cyhoeddus a'r rhai hynny sy'n gwybod beth sydd angen ei newid â ganddynt y sgiliau a'r arbenigedd i wneud i hyn ddigwydd
- Drwy adeiladu dealltwriaeth o lefelau ymgyfraniad ac ymgysylltiad dinasyddion yng Nghymru a herio a chynorthwyo cyrff cyhoeddus i wella eu hymagwedd tuag at hyn
- Drwy hybu ac annog dulliau arloesol o ymgysylltu mewn ffordd ystyrlon â dinasyddion
- Drwy weithio gyda Chomisiynwyr a phartneriaid eraill, drwy'r Panel Ymgynghori statudol, i nodi ardaloedd o ddiddordeb i bob un ohonom, dulliau o gynorthwyo ar y cyd gyrrff cyhoeddus a sut y gall ein pwerau gwahanol gael eu defnyddio i'r eithaf i sbarduno newid



Pwrpas 4:

Gweithredu yn ogystal â thrafod – herio'n tîm i ysgwyddo'r newid yr ydym yn dymuno ei weld mewn eraill

Byddaf:

Yn sefydlu fy swyddfa gan sicrhau bod egwyddor datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio'n rhan hanfodol o bob peth a wneir gennym. Golyga hyn gydweithio a mabwysiadu ymagwedd bartneriaeth tuag at y gwasanaethau cefnogi a chyflawni ein gwaith ble bynnag mae hynny'n bosibl. Bwriadaf ddysgu oddi wrth eraill a rhannu ein dysgu sefydliadol ni ein hunain gyda chyffwrdd cyhoeddus fel rhan o'n dyletswydd statudol i hybu datblygu cynaliadwy

Byddwn yn gwneud hyn:

- Drwy ddatblygu dealltwriaeth fy nhîm o'r hyn a olygir gan fyw'r pum dull o weithio, gan greu diwylliant a dulliau o weithio sy'n cyfrannu tuag gyflawni'r nodau llesiant
- Drwy adeiladu seilwaith i gyflawni'n gwaith seiliedig ar bartneriaethau gydag eraill, gan osgoi dyblygu a macsimeiddio cyfleoedd ar gyfer cydweithio
- Drwy sefydlu fframwaith llywodraethu, yn cynnwys rheoli risg a threfniadau rheoli, sy'n ymgorffori egwyddorion y Ddeddf.
- Drwy gyhoeddi fy adroddiad blynyddol a fy nghyfrifon erbyn 31 Gorffennaf bob blwyddyn, yn cynnwys datganiad sy'n dangos sut mae fy swyddfa'n byw egwyddorion datblygu cynaliadwy a'r pum dull o weithio

Gallwch roi sylwadau ar y cynllun drafft hwn drwy [glicio yma](#)